# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth 09/11/2021 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Tudur (Cad)<br>Cai Rees Jones | Catrin Roberts<br>Arfon Hughes | Gruffydd Williams<br>Rhys Llewelyn | Carys Roberts<br>Alaw Llewelyn Roberts | Caren Jones<br>Gito Williams |
| Janice Evans | Pat Humphreys (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Sharon Williams, Mared Llywelyn Williams a Lleucu Jones.
   Derbyniodd y clerc ebost gan Lleucu Jones yn gofyn am ddiweddariad ar faterion a drafodwyd yn y pwyllgorau blaenorol ac mae'r clerc am yrru ymateb iddi. Hefyd diolchodd a canmolodd y criw oedd yn gysylltiedig a'r prosiect 'Fa'ma yn Nefyn dros y penwythnos diwethaf.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol**
   Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 12/10/2021
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Rhys Llewelyn Eilio: Gito Williams

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Llwybr Arfordir Cymru – Gruffydd Williams**
   Fel mae pawb yn gwybod fe fu tirlithriad arall yn Nefyn chydig o wythnosau yn ôl ar y Lôn Gam ac fe fu rhaid i'r llwybr gau am ychydig eto. Mae hyn yn digwydd o dro i dro oherwydd y tirlithriadau yma a bob tro mae'n digwydd mae'r aelod lleol yn cysylltu hefo swyddogion Cyngor Gwynedd i ofyn am rowlio'r llwybr yn ôl i ffwrdd o ymyl y dibyn. Mae o wedi gofyn i'r swyddogion yma dro ar ôl tro fynd i weld perchnogion y tai i drafod rowlio'r llwybr yn ôl ond mae'n amlwg nad ydynt wedi gwneud hyn. Mae swyddog yr AHNE hefyd wedi cysylltu gyda'r aelod lleol yn dangos pryder ar ôl y tirlithriad diwethaf yma na fydd y gwaith ar y toiledau ar y Lôn Gam yn gallu cychwyn ond mae'r aelod lleol wedi bod yno heddiw yn tynnu lluniau ac mae'r clogwyn uwchben y toiledau wedi cael ei ddiogelu gan 'netting' rhyw ugain mlynedd yn ôl pan fu y tirlithriad mawr ac mae o wedi cysylltu gyda swyddog yr AHNE a pennaeth yr adran i ddweud hyn ond nid oes neb wedi cysylltu yn ôl i roi diweddariad ar ail agor y llwybr a'r gwaith ar y toiledau. Mae un o'r aelodau sydd yn bresennol heno yn ymwneud hefo'r gwaith ar y toiledau ac yn gallu cadarnhau eu bod yn aros am gynlluniau cyn gallu cario mlaen gyda'r gwaith ond y bydd y gwaith yn cychwyn cyn gynted a phosibl ar ôl iddynt dderbyn y cynlluniau. Cafwyd cais gan un o'r aelodau i ofyn am adroddiad ar y llwybr i gyd i weld beth yw'r sefyllfa hefo dŵr o dan y llwybr ond mae adroddiad manwl wedi ei wneud ugain mlynedd yn ôl adeg y tirlithriad mawr sy'n dangos bod dau fath o erydiad yn digwydd yma sef erydiad o'r gwaelod i fyny gan y môr ac hefyd pwysau dŵr glaw yn cronni ac oherwydd fod y tir yn gleiog mae'n llenwi fyny hefo dŵr ac mae unrhyw ddŵr ychwanegol wedyn yn sefyll ar y gwyneb ac os oes gormod o bwysau y tu ôl iddo mae'n llithro ar hyd gwyneb y clai ac i lawr.
   Penderfyniad: Gofyn i Cyngor Gwynedd ail edrych ar asesu y llwybr yma gyda'r nod o'i rowlio i mewn i le mwy saff oddi wrth y dibyn.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gito Williams

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

**Morlais – Gruffydd Williams**
Mae perchennog Morlais Nefyn wedi cysylltu hefo'r aelod lleol yn dweud ei fod wedi cyflwyno cais am gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio ac eisiau barn aelodau CTN ar y datblygiad. Mae'r aelod lleol wedi anfon manylion y datblygiad i'r aelodau iddynt gael golwg arno cyn y pwyllgor. Bwriad y perchennog yw tynnu'r tŷ presennol i lawr ac ail adeiladu tŷ mewn dyluniad gwahanol ac er mwyn gwneud hyn bydd rhaid cau y llwybr cyhoeddus sy'n mynd heibio'r tŷ tra mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen sef cyfnod o ddwy flynedd ac yna symud y llwybr cyhoeddus yma i lawr grisiau serth fel rhan o'r datblygiad. Lleisiwyd pryder gan un o'r aelodau bod tŷ yn mynd i gael ei ail godi yma ar glogwyn ansad ac mewn ardal lle mae tirlithriadau yn digwydd yn aml ac felly ddim yn gallu cefnogi y datgblygiad am y rhesymau yma.
Penderfyniad: Llythyru Cyngor Gwynedd i ddatgan pryder bod y llwybr yma yn mynd i gael ei ail leoli a bod CTN yn erbyn hynny.
Cynnig: Gito Williams     Eilio: Arfon Hughes

**Bin Baw Ci ochrau Hobwr, Nefyn – Gruffydd Williams**
Mae'r aelod lleol wedi derbyn cwyn nad oes bin baw ci o gwmpas Stad Hobwrn ac oherwydd hyn mae pobol yn gadael bagiau hefo baw cŵn ynddynt ar y llawr felly mae nhw wedi gofyn am gael bin baw ci rhywle yn yr ardal yna.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn am fin baw ci yn ardal Stad Hobwrn ac mae CTN am ariannu hyn.
Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Gruffydd Williams

5. **Cyfarfod â Swyddogion y Gaeltacht** – Cadeirydd
Mae grwp Hawl i Fyw Adra yn cydlynnu cyfarfod rhwng Mabon ap Gwynfor, aelodau cabinet Cyngor Gwynedd a swyddogion y Gaeltacht i edrych ar y polisiau cynllunio sydd ganddynt yn y Fro Wyddeleg yn Iwerddon ac yn fwy penodol yr amod medr iaith ar dai sydd ganddynt oherwydd y byddai'n dda cael ymwybyddiaeth ohono yn ein ardal ni yng Nghymru. Mae'r cadeirydd yn teimlo y byddai'n syniad da cael cynrychiolaeth o CTN yn y cyfarfod oherwydd ein bod wedi codi gymaint o ymwybyddiaeth yn y maes tai yn ddiweddar ac felly y cynnig yw os yw'r aelodau yn fodlon fod yna gynrychiolaeth o CTN yn mynd i'r cyfarfod?
Penderfyniad: pasiwyd bod cynrychiolaeth o CTN yn mynychu'r cyfarfod a danghosodd yr aelod lleol ddiddordeb mewn mynychu.
Cynnig: Rhys Tudur     Eilio: Gruffydd Williams

6. **Dynodiad Awyr Dywyll i AHNE Llŷn –** ebost Bleddyn Prys Jones, Swyddog AHNE Llŷn
Nôl ym mhwyllgor Ebrill 2021 pasiwyd i wrthod Dynodiad Awyr Dywyll i AHNE Llŷn ac yn dilyn hyn derbyniwyd ebost gan Bleddyn Jones yn gofyn i CTN rhoi ystyriaeth pellach iddo. Rhoddwyd y mater ar agenda mis Medi ond gan fod rheol yn ein Rheolau Sefydlog yn datgan na ellir newid penderfyniad y Cyngor o fewn chwe mis nid oedd modd trafod y mater felly penderfynwyd ei roi ar agenda mis Tachwedd. Darllenwyd llythyr Bleddyn Jones yn gofyn i CTN ail ystyried eu penderfynaid i'r aelodau a cafwyd trafodaeth ar y mater a'r teimlad oedd nad oes digon o wybodaeth amdano i fedru newid y penderfyniad gwreiddiol nac i leddfu'r pryderon sydd gan yr aelodau.

Penderfyniad: gwahodd Bleddyn Jones i bwyllgor Rhagfyr i ateb unrhyw gwestiynnau sydd gan yr aelodau ac hefyd i roi mwy o wybodaeth amdano, os y bydd Bleddyn Jones yn dymuno peidio derbyn y gwahoddiad yna fe fydd y penderfyniad gwreiddiol i wrthod yn sefyll ac ni fydd yn cael ei drafod eto.
Cynnig: Alaw Llewelyn Roberts   Eilio: Cai Rees Jones

7. **Cyllideb 2022-2023**
Mae'r Is-bwyllgor Ariannol wedi cael cyfarfod ac wedi creu cyllideb drwy edrych ar y gwariant am y flwyddyn llawn ddiwethaf sef 2020-2021 a gwariant 2021-2022 hyd yma.
Aeth cadeirydd yr Is-bwyllgor ariannol drwy'r gyllideb i egluro y ffigyrau. Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant yr un fath a rhai wedi cael eu codi ychydig oherwydd chwyddiant a ffigyrau megis torri llwybrau a mynwentydd yn ffigyrau cytundeb 3 blynedd sydd wedi eu derbyn eisioes. Mae eglurhad manwl i'w gael yng nghofnodion yr is-bwyllgor ariannol ar gyfer y ffigyrau i gyd. Un ffigwr newydd ar y gyllideb ydi ffi cyfrif HSBC gan fod HSBC o'r 1af o Dachwedd yn codi ffi o £5 y mis ar bob cyfrif ac mae gan CTN 5 cyfrif a Bryn Mynach 2 gyfrif, mae hyn yn golygu £420 mewn blwyddyn o ffioedd felly awgrymwyd gan yr is-bwyllgor ariannol i gyfuno 5 cyfrif CTN i un cyfrif i leihau y costau a cadw nodyn o'r balans sydd ym mhob cyfrif cyn eu cyfuno, a pasiwyd i gyfuno 2 gyfrif Bryn Mynach eto i leihau y costau. Drwy wneud hyn bydd £300 yn cael ei arbed bob blwyddyn.
Penderfyniad: cyfuno'r cyfrifon fel yr awgrymir uchod.
Cynnig: Arfon Hughes   Eilio: Gruffydd Williams
Yr unig ffigwr sydd heb gael penderfyniad arno yw y clwb ieuenctid oherwydd nid oedd yr is-bwyllgor ariannol yn gwybod beth oedd y seyllfa parthed y bwriad i ail ddechrau'r clwb neu peidio ar ôl y pandemic.
Penderfyniad: ei roi ar agenda mis Rhagfyr er mwyn gwneud penderfyniad ar y clwb ieuenctid a cytuno a pasio'r gyllideb er mwyn penderfynnu ar y praesept.

8. **Byrddau/Paneli Gwybodaeth yn Nefyn, Morfa ac Edern.**
Yn y pwyllgor diwethaf trafodwyd cais gan Amgueddfa Forwrol Nefyn am lythyr yn cefnogi eu cais i gael byrddau dehongli hanes forwrol Nefyn ar draeth Nefyn ac yn sgil hynny penderfynwyd rhoi y mater yma ar yr agenda heno i drafod cael mwy o fyrddau gwybodaeth yn Nefyn, Morfa ac Edern. Awgrymwyd y gellir cael hyd i becynnau hanesyddol i'w rhoi yn y byrddau yma ac yna rhoi cais i fewn i'r AHNE am grant a cael y cais yn barod at mis Ebrill 2022 pan fydd mwy o arian ar gael gan yr AHNE. Ychwanegwyd hefyd y byddai'n dda cael bwrdd arddangos ar gyfer y gefeillio rhwng Porth Madryn a Nefyn a cael baneri y ddraig goch yn y tri pentref. Cafwyd cynnig i gysylltu hefo'r Amgueddfa Forwrol yn Nefyn i ddweud wrthynt ein bod yn bwriadu rhoi byrddau gwybodaeth yn y pentrefi a gofyn os ydynt eisiau gweithio hefo CTN ar hyn gan eu bod yn weithgar iawn yn dwyn ymwybyddiaeth o wybodaeth leol, cafwyd cynnig hefyd i wahodd yr ysgolion lleol i fod yn rhan o'r prosiect.
Penderfyniad: Creu is-bwyllgor i ddelio gydar prosiect ac yna ysgrifennu at yr ysgolion lleol a'r Amgueddfa Forwrol i weld os oes diddordeb ganddynt i weithio hefo CTN ar y prosiect yma ac yna rhoi cais i fewn i'r AHNE am grant.
Cynnig: Rhys Tudur   Eilio: Rhys Llewelyn

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

9. **Mynwent Morfa Nefyn –** estyniad i'r fynwent – diweddariad – Clerc
Cafwyd diweddariad gan y clerc ei bod wedi ffonio Gethin Vaughan Jones adran eiddo i geisio cael diweddariad ganddo gan fod neb wedi bod mewn cysylltiad ers y pwyllgor diwethaf. Nid oedd ef wedi derbyn dim gan yr adran gyfreithiol ychwaith felly mae'r clerc wedi ffonio'r adran gyfreithiol bob diwrnod ers wythnos yn ôl ond nid oes neb wedi ateb yno tan heddiw. Ar ôl siarad gyda rhywun o'r adain weinyddol cafwyd addewid y byddai rhywun yn cysylltu hefo'r clerc cyn y pwyllgor a derbyniwyd ebost gan Gethin Vaughan Jones, ac nid yr adran gyfreithiol, am 5.40y.h. heddiw yn dweud fod Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol wedi ei hysbysebu nad ydynt gyda'r adnoddau i gynnig cymorth i CTN gyda'r GPG. Mae'r tir yma wedi cael ei gynnig i CTN am £30,000.00 ond gan fod y pris yma y tu hwnt o uchel mae'n ddyletswydd ar CTN i geisio ei gael am y pris gorau a mynd lawr y lôn GPG cyn gwneud dim byd arall.
Penderfyniad: cysylltu hefo Un Llais i gael cymorth hefo'r broses Gorchymyn Prynu Gorfodol.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Gruffydd Williams

10. **Coed Nadolig a Gwasaneth Goleuo –** diweddariad – Clerc
Mae'r clerc wedi bod yn trefnu y coed nadolig a'r gwasanaethau goleuo ac mae'r rhan fywaf wedi cael ei drefnu, fel a ganlyn:
Yn Edern mae Steven John yn talu am y goeden oherwydd fod Tu Mewn yn rhoi gorau iddi ar ôl blynyddoedd lawer, mae Chris Jones yn gosod y goeden ac mae Bleddyn Evans yn gosod y goleuadau ar y goeden a Siop Cigydd Edern yn rhoi y trydan am ddim i'r goleuadau yr un fath a'r blynyddoedd a fu.
Mae Sion Corn yn Edern ar dydd Mawrth 30/11/2021 ac yn dod i oleuo y goeden oddeutu 6.15-6.30.
Mae Pwyllgor Cae Chwarae yn cael coeden eu hunain yn y Cae Chwarae ac yn trefnu gwasanaeth goleuo eu hunain am y tro cynaf eleni yn y Cae Chwarae.
Yn Nefyn mae Ashley Hughes a Elfed Spar yn talu am y goeden, Chris Jones yn gosod y goeden, Bleddyn Evans yn gosod y goleuadau ac Ymddiriedolaeth Drefol Nefyn yn rhoi y trydan am ddim i'r goleuadau.
Mae Sion Corn yn Nefyn ar ddydd Iau 2/12/2021, wrth y groes 5.45 – 6.00 i oleuo y goeden felly mae angen penderfynnu pwy sydd am oleuo y goeden ac os oes rhywun am ddweud ychydig o eiriau fel y gwnaeth y cadeirydd yn 2019. Cafwyd cynnig i ofyn i Dewi Pws i oleuo y goeden.
Penderfynaid: y clerc i gysylltu hefo Dewi Pws i ofyn iddo oleuo y goeden.
Cynnig: Alaw Llewelyn Roberts Eilio: Rhys Tudur
Yn Morfa mae'r clerc wedi cysylltu hefo pob cwmni sydd gyda Siop/Caffi/Tafarn yn y pentref ac mae 6 wedi cysylltu yn ôl yn dweud eu bod eisiau cyfrannu tuag at y goeden nadolig. Mae Chris Jones yn gosod y goeden, Bleddyn Evans yn gosod y goleuadau a Pwyllgor Ganolfan Morfa yn rhoi y trydan am ddim i'r goleuadau.
Mae Sion Corn yn Morfa ar dydd Mercher 1/12/2021 ac yn cychwyn o'r Ganolfan am 5.15 ac mae'r Ysgol Feithrin yn trefnu y gwasanaeth goleuo a cael rhywun yno i oleu'r goeden nadolig. Yr unig broblem sydd hefo coeden nadolig Morfa ydi y bydd rhaid i Glasfryn yrru'r

anfoneb i CTN i dalu ac yna fe fydd rhaid i'r 6 cwmni dalu CTN yn ôl, dyma'r unig ffordd i wneud hyn gan na fedrith Glasfryn gymeryd chwech taliad gwahanol am yr un goeden.
Penderfyniad: CTN i dalu am y goeden nadolig i Glasfryn a'r clerc i anfon anfoneb i'r 6 cwmni iddynt gael talu CTN yn ôl.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Rhys Tudur
Pan gysylltodd y clerc gyda Bryn Noddfa roedd y perchnogion newydd eisiau i'r clerc basio neges ymlaen i'r aelodau sef eu bod wedi dod ar draws llythyr gan CTN i'r cyn berchnogion ugain mlynedd yn ôl yn gofyn wrthynt beidio a newid yr enw o Bryn Noddfa i enw Saesneg ac wrth gwrs fe newidwyd yr enw bryd hynny i Fairways. Mae'r perchnogion newydd am i CTN wybod eu bod wedi newid yr enw nôl i Bryn Noddfa ac fe fydd arwyddion newydd yn cael eu rhoi i fyny yn y flwyddyn newydd.
Soniwyd hefyd y mis diwethaf y byddai'n syniad da i CTN brynu CD caneuon nadolig cymraeg a'i roi i'r Rotari iddynt gael eu chwarae ar y teithiau Sion Corn ac mae'r clerc am brynu'r CD ar ran CTN a cysylltu hefo y Rotari i drefnu i'r cadeirydd gyflwyno'r CD iddynt a cael lluniau ohonynt i roi yn y papurau lleol.

**11. Gwasanaethau Sul Y Cofio –** Clerc
Y trefniadau ar gyfer Sul y Cofio yw:
Nefyn – Gwasanaeth yn Eglwys Dewi Sant am 10.15 ac yna i ddilyn wrth y Gôf Golofn
Morfa Nefyn – Gwasanaeth wrth y Gôf Golofn am 1.00
Edern – Gwasanaeth wrth y Gôf Golofn am 1.30
Mae'r clerc wedi trefnu y bydd y lôn yn cael ei chau yn Nefyn ac Edern ar Sul y Cofio sef 14/11/21 ar yr amseroedd hyn ac wedi trefnu i'r heddlu fod yno i blismona cau y ffyrdd, hefyd mae Steven John wedi rhoi menthyg arwyddion 'Ffordd ar Gau' i CTN ac am eu rhoi yn eu lle y diwrnod blaenorol.
Mae'r clerc hefyd wedi archebu 3 torch ac wedi rhoi enw CTN ar bob un felly yr unig beth sydd angen ei benderfynnu yw pwy sydd am roi'r torchau ar ran CTN.
Penderfyniad: Mae Carys Roberts am roi torch yn Nefyn, mae Janice Evans am roi torch yn Morfa ac mae Gwynfor Jones am roi torch yn Edern.

**12. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

- **Cais am gyfraniad ariannol –** Amgueddfa Forwrol Llŷn
Derbyniwyd ebost yn amgau'r datganiadau banc gan y Trysorydd ac maent wedi cael eu rhannu hefo'r aelodau.
**Penderfyniad:** Gan fod swm sylweddol yn y banc ganddynt ar y funud cafwyd cynnig i'w roi ar agenda mis Mawrth oherwydd yn mis Mawrth sef ddiwedd y flwyddyn ariannol mae CTN yn trafod ceisiadau am gyfraniadau ariannol ac yn gwneud penderfyniad arnynt.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

**13. Ceisiadau Cynllunio**
**C21/0998/42/DT –** Lluest Wen, Edern – estyniad a garej.
**Penderfyniad**: Cefnogi
Cynnig: Gito Williams Eilio: Caren Jones

**C21/1030/42/LL –** Cyn Eglwys Santes Mair, Lôn yr Eglwys, Morfa Nefyn – Codi 7 tŷ annedd ynghŷd â gwaith cysylltiol.
**Penderfyniad:** Gwrthod
Rhesymau Polisi:
1. Cais yn groes i bolisi 17 o Gynllun Datblygu Lleol. Yn ol y polisi mae Morfa Nefyn yn gymuned sydd wedi ei heithrio o orfod cael tai marchnad rydd am ei fod o dan gategori 'pentref arfordirol'. Dim ond tai fforddiadwy all gael eu codi yma gan nad oes digon o dai fforddiadwy i'r bobol leol.
2. Mae'r tai anfforddiadwy, hefo 'frontage' gwydr a garej ac mae'r prisiau yn debygol o fod dros £300,000.00.
3. Mae'r tai yr un fath ac hefo diffyg amrediad fel sy'n ofynnol yn ol y Cynllun Datblygu Lleol. Mae polisi 6 o'r Cynllun Datblygu Lleol yn galw am amrediad o fathau o dai.
4. Yn ol 6.1.3 o'r Cynllun Datblygu Lleol rhaid wrth ddatblygu ystyried gwella a diogelu'r iaith a diwylliant, mi fyddai'r cynllun hwn yn gwneud niwed i'r iaith ac yn amharu yn arwyddocaol ar y gymuned (6.1.4)
5. Yn ol Polisi Strategol 1 iaith a diwylliant dylier cael asesiad ieithyddol am fod dros 5 ty yn bwriadu cael eu codi.
Rhesymau Cyffredinol:
1. Mae'r tai yn amharu ar breifatrwydd tai sydd ar Lon Uchaf ac yn edrych mewn i'w stafelloedd byw/'conservatories'.
2. Mae mynedfa i'r eglwys yn rhy gul i godi ystad, amhosibl i geir basio eu gilydd.
3. Y cynlluniau yn mynd dros llwybr cyhoeddus
Cynnig: Rhys Tudur    Eilio: Caren Jones
**C21/1056/42/DT –** Wintonia, Stryd y Ffynnon, Nefyn – Estyniad deulawr.
**Penderfyniad:** Sylwadau – Mae pryder y bydd y datgblyiad yn lleihau y ddarpariaeth parcio ar gyfer yr eiddo a gofynnir i chwi wneud yn siwr fod yna ddigon o le i geir barcio o fewn yr eiddo fel sydd yna rwan.
Cynnig: Gruffydd Williams    Eilio: Arfon Hughes
**C21/1065/42/DT –** Llain Delyn, Lôn Uchaf, Morfa Nefyn – Dymchwel sied gardd presennol a chodi ardal teras newydd yn ei le.
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Carys Roberts

Ceisiadau Diweddarach
Dim.

**14. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1035.49
- Taliad y Cadeirydd – rhif 2 - £300.00
- Cyngor Gwynedd – Cyfraniad tuag at Reolaeth y Traeth 2021 - £5000.00
- John Gwynfor Jones – Angladd Elizabeth Clark - £70.00

- John Gwynfor Jones – Angladd Rhian Deane - £450.00
- John Gwynfor Jones – Angladd Ifor Hughes Griffiths - £400.00
- John Gwynfor Jones – Angladd Annie Griffiths Jones - £70.00
- D. M. Parry – Pumed taliad mynwent Morfa Nefyn - £170.00
- Ashley Hughes – CTN mewn papur gwrth-ddŵr ar torchau Sul y Cofio - £12.60
- Cliff Hughes – Taliad rhif 6 cytundeb - £1075.00 & gwaith ychwanegol - £345.80 = £1420.80
- Clerks & Councils Direct – Adnewyddu tanysgrifiad - £12.00
- Npower – Trydan Llyfrgell mis Hydref - £169.27
- E-On Next – Trydan Siop Siarad mis Hydref - £114.23
- RBL Poppy Appeal – 3 Torch Sul y Cofio - £55.50

Penderfyniad: Talu pob anfoneb

Cynnig: Arfon Hughes        Eilio: Cai Rees Jones

**15. Taliadau wedi eu derbyn**

- Ifan Hughes – Angladd Eustratia Davies - £680.00

**Aelodau Nefyn yn unig - Maint Bin Parc y Ddôl**

Cafwyd diweddariad gan yr aelod lleol sef ei fod wedi bod ar y ffôn hefo Cyngor Gwynedd ac maent wedi penderfynnu treialu gwagio'r bin yn amlach felly fe fydd rhaid aros i weld os fydd hyn yn dderbyniol.

Cafwyd cais gan un o'r aelodau am gael cyfarfod yn Siop Siarad yn lle ar zoom mis nesaf.
Penderfyniad: y clerc i anfon ebost i'r aelodau i gyd yn gofyn am eu sylwadau ac os oes rhywun eisiau ymateb yn gyfrinachol yna iddynt anfon eu ymateb i'r clerc yn unig, unwaith y bydd pawb wedi ymateb byddwn yn mynd gyda'r mwyafrif.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737